Paragraph 1.3 of the Planning Statement specifically describes parts of the Proposed Development, which will constitute solar PV arrays, by reference to percentages and reads as follows:

"The proposed development prioritises conforming with the designations for the landscape and nature conservation areas by including designs for over 57 hectares of green infrastructure and wildlife habitat improvements across c.63% of the fields; with the PV arrays only occupying c.37% (around 34 hectares) of the site".

As is further outlined in paragraph 1.2 of the DAS:

"The proposed development will deliver a host of landscape, biodiversity, soil and hydrological enhancements. These include measures to strengthen habitat connectivity through this part of the valley, the creation of green buffer zones and public rights of ways improvements."

Paragraph 1.2 of the DAS further reiterates that *"the proposed development prioritises conforming with the designations for the landscape and nature conservations areas"* and clarifies that the Proposed Development includes designs for over 57 hectares of green infrastructure and wildlife habitat improvements (across c. 63% of the fields), whereas PV arrays will only occupy around 34 hectares (c. 37% of the Application site).

Negative visual impact on an approach route to the Gower AONB

Landscape and visual impacts of the Proposed Development are covered in the Landscape and Visual Impact Assessment (**LVIA**), which again forms part of the Applicant's Application documents pack shared with the consultees. The LVIA was prepared in line with best-practice methodology. It confirms that the solar PV element of the Proposed Development would result in a degree of harm to the landscape character and visual amenity of the part of the Application site fronting the A484 and Swansea Road (B4560). However, the landscape and visual effects would be localised owing to the sloping landform of the Afon Llan valley, the surrounding built form, woodland and high sided hedgerows.

In relation to visual impacts on the Gower AONB, in particular, the LVIA provides as follows (paragraph 11.12):

"[...] The Gower AONB is located approx. 3.4km from the Site and is a material consideration [...]. Following the Site visits and Screened Zone of Theoretical Visibility [...] which shows no potential areas of visibility, it is assessed that there are no likely effects on visual receptors within the Gower AONB looking towards the Site or likely effects on the landscape character of the Gower AONB and its setting due to its distance from the Site."

The LVIA also addresses visual impacts of the Proposed Development on any road users and the Public Rights of Way (**PROW**) network surrounding the Proposed Development and concludes as follows (paragraphs 11.10 and 11.11):

"Considering the intervening boundary vegetation and low-lying profile of the proposed development it is assessed that views from the surrounding network of PROW would be considerably screened and visual effects would not be adverse. Views from small sections of the PROW footpaths which cross or are close to the Site including LC26 (Viewpoint 1) which runs south from Swansea Road (B4560), west of Days Motors to the Afon Llan, LC101 (Viewpoint 4) north and south of Afon Llan, and CO600 south of Afon Llan, would be subject to adverse visual effects due to the proposed developments proximity causing a high magnitude of change to existing views at year 1.

There would be no major effects on road users along Swansea Road/A484 [notably due to the A484 passing through a cutting and the Swansea road lined with mature tree belts], Titanium Road, Statutory Access land users north and west of the Site, or long distance footpath users (Wales Cost Path and the Gower Way)".

Negative impact on green space/loss of green space

The Proposed Development's impact on green space is assessed in the Planning Statement and paragraphs 6.114 -6.115 provide as follows:

"[...] habitat retention, creation and enhancement measures are designed to increase the extent and quality of habitat on key corridors within and through the application site. These measures will strengthen habitat connectivity through the application site, including creation of buffer zones. This will include native wildflower seeding/green hay from a donor site (likely to be from retained habitat to the south) and alteration of grassland management to extend and enhance priority habitat. A wildlife corridor will be created along the public right of way linking the site from north to south. This will comprise a habitat mosaic of grassland, scrub and hedgerow planting. Additional woodland and hedgerow creation and infill planting will also strengthen habitat connectivity across the wider site.

The river corridor and adjacent SINC are considered to be a key component of the mitigation approach; a continuous wide corridor of habitat creation and enhancement will be created along the river corridor within the redline boundary, extending and linking valuable habitats as an ecological network. Open riparian habitats will be retained as part of the mosaic, but with a wider buffer zone than at present. An area of farmland bird mitigation will also be created adjacent to the river. Treatment and removal of extensive Japanese Knotweed will also provide habitat enhancement".

Furthermore, drawings and plans submitted for consultation as part of the Application pack and, in particular the Green Infrastructure Plan, clearly illustrate the amount of the green space enhancements that are proposed to be delivered as part of the Proposed Development. As is further outlined above, extensive part (over 57 hectares) of the Proposed Development constitutes green infrastructure and wildlife habitat improvements lying across 63% of the Application site.

Green infrastructure proposed to be provided as part of the Proposed Development is described in detail in the Application documents and includes:

- 4.75 acres of new tree planting;
- 3km of new hedgerows;
- re-establishment of the 6.8ha Rhos grassland habitats;
- enhanced 5.5ha of riparian habitats along the Afon Llan;
- Creation of 2.9ha of lowland meadow; and
- 3.5ha of targeted habitats for reptiles, invertebrates and farmland birds.

As provided in the Planning Statement, overall the Proposed Development will result in a biodiversity net gain of 24.99% when measured against existing baseline conditions. Paragraph 6.41 of the Planning Statement provides:

"[...] Based on improvement of the habitat distinctiveness of improved grassland habitats, conversion of arable habitats to grassland and enhancement of grassland in ecological buffer areas, the development proposals are currently likely to result in a significant net gain in biodiversity on the application site."

Loss of agricultural production, farm and a farm shop

Impacts of the Proposed Development on the existing agricultural production are covered in the Planning Statement, as well as the document entitled Agricultural Considerations and dated May 2023.

The Agricultural Considerations explain that most of the Application site is occupied by Business A, Penyfodau Fawr and the eastern fields are occupied by Business B and let annually for grazing.

In terms of impacts of the Proposed Development on this existing use, paragraph 2.43 of the Planning Statement provides as follows:

"The applicant has advised that as part of the contractual arrangement with the landowners, the tenant farmer would surrender land within the application site in exchange for replacement agricultural assets (The applicant understands that these include alternative fields land of the same and better quality, property and outbuildings owned by the same Estate landlord). The tenant farmer already took occupation of these nearby replacement fields in March 2022. The developer and Estate landlord intend to continue agricultural use within the site by way of sheep grazing during the operational lifetime of the development".

Agricultural Considerations further explain that, whilst the farm enterprises as they are currently operated will need to change, they will not be lost, and agricultural use of the land can continue (paragraphs 6.4 – 6.11):

"There are open areas within the development where grazing by cattle could take place.

Under the panels, grazing by sheep will be possible and forms a good way to manage the grassland. Sheep grazing between and beneath panels is a feasible agricultural use [...].

Sheep grazing will involve similar amounts of labour to cattle grazing, and the economics (whilst variable, as is common with all agricultural enterprises) are not dissimilar. Therefore there are no significant economic impacts.

The farm shop sells products mostly not produced on the farm, based on observations and the Facebook advertising. The conversion of beef grazing land to mostly sheep grazing land will not affect the potential for a farm shop to operate from another location and still sell imported dairy produce, vegetables, fruit cakes, meat products, juices, Christmas trees etc.

It is recognised that the farm would not be able to grow so many pumpkins as were grown in 2022.

However agricultural use of the land can continue. The shop could relocate. There are no other significant economic or severance impacts.

The eastern land is let on short-term grazing agreements, and there will be no significant effect on any farm business as a consequence."

Loss of ancient rights of way

The Planning Statement confirms that no PROWs will be lost as a result of the Proposed Development. As provided in paragraph 2.46 of the Planning Statement:

"The consultation layout incorporates and protects the 'used-line' of the Public Rights of Way traversing the application site. For the final submission and in consultation with the Local Planning Authority, the layout will be amended to also incorporate the definitive line where this deviates from the 'used-line'."

Impacts on birds

Impacts on birds are considered in detail in the Ecological Appraisal, which forms part of the Application documents pack. Paragraph 4.5.2 which deals with habitat creation and enhancement explains that

potential impacts include the loss or alteration of grassland habitat beneath the solar arrays, particularly within the footprint of the SINCs, and the loss of open habitat for ground-nesting birds. However, it further provides that the enhancement measures carried out within the large mitigation field and farmland bird mitigation area will mitigate these impacts, as will the proposed sympathetic grassland management within and around the solar arrays.

Paragraph 4.5.2 of the Ecological Appraisal further provides as follows, in terms of the habitat retention, creation and enhancement measures, which form part of the Proposed Development:

"Habitat retention, creation and enhancement measures, which form part of the Proposed Development, are designed to increase the extent and quality of habitat on key corridors within and through the Application site. Planting of native hedge, tree and scrub, and creation of wild bird cover plots will aim to extend the habitat mosaic and enhance habitat value for a range of species including bats and farmland bird species."

Paragraph 4.5.3 lists additional habitat features, which will be provided and reads as follows:

"A minimum of 20 bat boxes and 20 bird boxes will be installed on retained mature trees across the site to provide new roosting and nesting opportunities for these species. Bird boxes will be suitable for a range of woodland bird species."

In conclusion, the Ecological Enhancement provides:

"The proposed extensive green infrastructure works designed across the majority of the site will result in habitat retention and management, including restoration of priority habitat associated with the SINCs. This will enhance retained commuting/foraging habitat for badgers, bats, birds, dormice and reptiles, and provide enhancement measures for new roosting/nesting opportunities for bats and birds. The areas of infrastructure associated with the solar arrays will cause some loss of low quality habitats of value to foraging badgers, bats, birds and reptiles".

Therefore, whilst the Proposed Development will have some impact on ground nesting birds, these are outweighed by the extensive biodiversity enhancements, which are proposed by the Applicant, as part of the Proposed Development.

The Proposed Development's impact to local farming, wild life and the community

Impact of the Proposed Development on local farming and wildlife is considered in detail above. As to any impacts on the community, these are considered in the Economic Benefits Statement (submitted as part of the Application documents pack), which highlights a number of economic benefits that will be created by the Proposed Development. These include:

- Jobs – the Proposed Development will create jobs in Swansea and support the area's growth by providing new labour market opportunities.
- Supporting a post-Covid-19 recovery.
- Construction phase employment – the Proposed Development could support up to 163 temporary jobs, both direct jobs on-site and the wider supply chain, during the nine-month construction period (and similar levels of employment during decommissioning of the project).
- Contribution of construction phase to economic output - The gross value added (**GVA**) generated by jobs supported during the construction phase could be up to £6.2 million.
- Operational benefits - the Proposed Development will support up to five full-time equivalent (**FTE**) jobs in Swansea and the wider economy once it is operational. The GVA associated with the five FTEs is estimated to be £5.55millions (present value) over 40-year operational life span. Business rates generated by the solar project element of the Proposed Development could be in the region of £150,000 per annum.
- Supporting economic development objectives – the Proposed Development will support the Welsh Government's pledge to become net zero and the COP27 aim of reducing carbon emissions and increase generation of clean energy. At the regional scale, it will support South

West Wales regional economic objectives in respect of investment in renewable energy and generating benefits across the wider economy and society.

- Public attitudes towards renewable energy – a report from BEIS found that public support for renewable energy was at 85% in Spring 2022. This increased to 87% public support when asked about solar energy projects.

In addition to the above, the Applicant is also exploring the option of providing an element of shared community ownership of part of the Proposed Development. Community Energy Wales has been commissioned to discuss local interest to develop shared community ownership with entities such as Gower Power Co-Op CIC.

As part of the community benefits the Applicant is also looking to enter into a legal agreement to provide funds to the local planning authority to upgrade the local PROW infrastructure.

Conclusion

The above illustrates that the Petitions Grounds are false and have no basis in fact. They completely ignore information that has been shared with the interested parties, as well as the members of public. The Petition Grounds are also potentially defamatory to the Applicant and its Application, as they incorrectly set out context of the Proposed Development.

The publication of the Petition is likely to cause serious harm to the Applicant's reputation in the industry, which may also result in serious financial loss. This is notwithstanding whether the Applicant's Application is refused, as suggested in the Petition.

The Welsh Government should not have allowed the Petition to be published and the Applicant respectfully requests that it is rejected and held void as soon as reasonably possible to prevent any further damage to the Applicant and/or the Application.

Should the Welsh Government require any further information in relation to the above, they should not hesitate to get in touch with either ourselves or the Applicant.

Yours faithfully

Addleshaw Goddard LLP

Addleshaw Goddard

Direct line +44 (0)113 209 2488
Email tatiana.volodina@addleshawgoddard.com

P-06-1378: Rydym am i gymorthdaliadau fferm gael eu hymestyn i arddwyr bach a garddwyr marchnad

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Rhagfyr 2023
Petitions Committee | 11 December 2023

Cyfeirnod: SR23/7253-2

Rhif y ddeiseb: P-06-1378

Teitl y ddeiseb: Rydym am i gymorthdaliadau fferm gael eu hymestyn i arddwyr bach a garddwyr marchnad

Geiriad y ddeiseb: Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn cael tua 50 y cant o'u hincwm o gymorthdaliadau'r llywodraeth. Mae hyn yn golygu bod ganddynt ddigon o arian i wneud bywoliaeth o ffermio a gallant barhau i dyfu bwyd. Mae'r rhan fwyaf o ffermydd yn fawr ond mae ffermydd bach (1-5 hectar) yn fwy cynhyrchol ac yn tueddu i dyfu ffrwythau a llysiau ar gyfer marchnadoedd lleol. Nid yw'r rhain yn gymwys i gael cymorthdaliadau ar hyn o bryd, oherwydd eu maint, sy'n annheg ac yn dangos diffyg cefnogaeth i dyfu bwyd yn lleol ac yn dymhorol.

Rhagor o fanylion:

Ysbrydolwyd y ddeiseb hon gan OurFood1200. Mae'n awyddus i adeiladu ffermio sydd:

Ar raddfa fach, sy'n gynhyrchol iawn ac yn fasnachol hyfyw.

Yn helpu i ddarparu sicrwydd bwyd yn ne Cymru.

Yn rhoi cyfle i'r rhai sy'n dlawd o ran asedau, yn enwedig ein pobl ifanc, gael mynediad at dir a dechrau menter ffermio adfywiol.



Yn hyrwyddo cymuned drwy fasnachu lleol a chydberchnogaeth gymunedol o'n tirwedd – "economi sylfaenol".

Yn adfywiol: adeiladu bioamrywiaeth yn bwrpasol, gosod carbon yn y pridd, ac osgoi cemegau niweidiol a llygredd.

Yn creu cadwyni cyflenwi lleol byr sy'n cadw elw'n lleol ac ar raddfa sy'n agor cyfleoedd newydd i bob ffermwr lleol.

Yn darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chymorth lles meddyliol i gymunedau

Yn annog bwyta'n iach drwy sicrhau bod ffrwythau a llysiau ffres, maethlon, wedi'u tyfu'n lleol ar gael i bawb yn ein rhanbarth.

Yn lleihau effaith ein defnydd o fwyd a diod ar allyriadau carbon a datgoedwigo ledled y byd.

1. Y cefndir

Mae cymorth amaethyddol yng Nghymru wedi cael ei gynllunio o dan reolau Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE (PAC) ers blynyddoedd lawer. Mae rheolau PAC 2014-2020 yn dal i fod yn berthnasol i raddau helaeth yng Nghymru o dan ddeddfwriaeth ddomestig. Mae ffermwyr yn cael cymorth uniongyrchol os oes ganddynt o leiaf **pum hectar** o dir cymwys. Gall ffermwyr gael cyllid o dan Glastir (cynllun amaeth-amgylcheddol Cymru) os oes ganddynt o leiaf **tri hectar** o dir cymwys.

Mesur dros dro oedd parhau â system PAC yng Nghymru cyn cyflwyno polisi amaethyddol newydd, sy'n cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd (y Cynllun Ffermio Cynaliadwy – ceir manylion isod). Disgwylir cynnal ymgynghoriad ar y cynllun newydd, gan gynnwys y meini prawf cymhwystra fel maint y daliad, ddiwedd y flwyddyn hon.

2. Camau gweithredu Llywodraeth Cymru

2.1. System y Polisi Amaethyddol Cyffredin

Roedd gan aelod-wladwriaethau a rhanbarthau'r UE hyblygrwydd wrth weithredu PAC 2014-2020. O dan reolau'r Cynllun Taliadau Sylfaenol (taliadau uniongyrchol y

PAC), roedd yn ofynnol i weinyddiaethau osod isafswm hawliad o naill ai €100 neu un hectar, ond gallai llywodraethau osod isafswm uwchlaw'r trothwy hwn pe baent yn dymuno. Bwriad y gofynion i osod isafswm hawliad oedd osgoi gormod o faich gweinyddol yn sgil rheoli taliadau bach. Gosododd Llywodraeth Cymru isafswm o bum hectar.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen benderfyniadau yn 2014 yn nodi ei rhesymeg dros yr isafswm pum hectar:

Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y terfyn o 5ha. O'u cymharu â gweddill Ewrop, mae ffermydd Cymru'n fawr, tua 83ha o faint ar gyfartaledd. Awgrym yr ymgynghoriad oedd ein bod yn penderfynu ar 3ha, i fod yn gyson â maint hawliad lleiaf Glastir ond wedi ystyried y mater ymhellach, penderfynwyd ei gynyddu i 5ha. Byddai hynny'n caniatáu i ni rannu mwy o'r BPS [y Cynllun Taliadau Sylfaenol] â ffermydd mwy sydd ar y cyfan yn fwy cynhyrchiol. Byddai hefyd yn lleihau costau gweinyddu. Bydd ffermydd 3ha a mwy yn dal i fod yn gymwys am y cynllun Glastir.

2.2. Cynlluniau garddwriaeth

O ran y Cynllun Dechrau Busnes Garddwriaeth a'r Cynllun Datblygu Garddwriaeth, a lansiwyd yn 2022, fe'u cynlluniwyd i helpu tyfwyr i fuddsoddi mewn offer a thechnoleg newydd. Wrth ddyfarnu'r grantiau, ni chafwyd isafswm o ran maint yr ardal sy'n cael ei ffermio, felly maent wedi bod ar gael i arddwyr ar raddfa fach a garddwyr marchnad. Mae llythyr Llywodraeth Cymru ynghylch y ddeiseb hon yn dweud ei bod yn galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch.

2.3. Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu polisi amaethyddol newydd yn lle system gymorth PAC. Bydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus terfynol ar ddiwedd 2023. Nid yw wedi'i gyhoeddi ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Disgwylir i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gael ei gyflwyno yn 2025.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig newid taliadau ffermio yn sylfaenol i gefnogi ac ehangu'r arfer o reoli tir yn gynaliadwy, gan symud i ffwrdd o'r drefn o dalu

amaethwyr yn benodol am gynhyrchu bwyd (sef yr hyn a wnaed o dan drefniadau'r PAC). Byddai'n ofynnol i ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy gyflawni 'gweithredoedd sylfaenol' y cynllun er mwyn cyflawni canlyniadau amgylcheddol yn bennaf. Byddai hyn yn sicrhau eu bod yn gymwys i gael y taliad mwyaf sylfaenol. Yna byddai gweithredoedd 'dewisol' a 'chydweithredol' ar gael, y telir arian ychwanegol ar eu cyfer. Mae llythyr Llywodraeth Cymru ynghylch y ddeiseb hon yn tynnu sylw at y weithred ddewisol arfaethedig o roi "cymorth i sefydlu busnesau garddwriaethol newydd neu fentrau garddwriaethol newydd o fewn busnesau fferm sefydledig." Mae'n dweud nad yw'r weithred ddewisol hon yn debyg o fod ar gael ar unwaith pan fydd y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn dechrau yn 2025, ond y bydd yn cael ei integreiddio yn y cynllun yn ystod y cyfnod pontio. Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

Mae adborth anecdotaidd gan randdeiliaid garddwriaethol yn awgrymu na fyddai rhai yn gallu cyflawni Gweithredoedd Cyffredinol SFS [y Cynllun Ffermio Cynaliadwy] y byddai'n ofynnol i fusnesau eraill eu cyflawni gan na fyddai'n ymarferol cyflawni camau gweithredu ar gynefinoedd neu greu coetiroedd ar leiniau bach. Rydym wedi cynghori'r sector garddwriaethol i ymateb i ymgynghoriad SFS gydag awgrymiadau ar sut y gellid cefnogi eu sector o fewn model SFS, neu os oes potensial i gefnogi clystyrau o fusnesau garddwriaethol trwy haen Gydweithredol yr SFS.

Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw'r Ddeddf yn nodi isafswm maint y ffermydd sy'n gymwys i gael taliadau. Bydd hyn yn cael ei bennu yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy terfynol.

Yn y *drafft diweddaraf o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy* (a gyhoeddwyd ar gyfer ymgynghoriad yn 2022), nodwyd meini prawf cymhwysedd arfaethedig lle y byddai'n rhaid i ymgeiswyr:

- fod yn ffermwr sy'n cynnal gweithgareddau amaethyddol;
- allu cynnal o leiaf y Gweithredoedd Sylfaenol perthnasol gydol cyfnod y contract;
- cynnal y gweithredoedd ar dir amaethyddol yng Nghymru;
- ffermio o leiaf **dri hectar** o dir amaethyddol cymwys.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft yn cynnwys cyfeiriad at y sector garddwriaethol, gan nodi:

...dim ond ychydig o dir amaethyddol a ddefnyddir gan y sector garddwriaeth yng Nghymru a dim ond nifer gymharol fach o fusnesau a geir ynddo. Mae potensial i ni dyfu mwy o'r llyisiau rydyn ni'n eu bwyta yma yng Nghymru a bydd y Cynllun yn cefnogi hyn trwy dargedu buddsoddiad i ehangu a datblygu sgiliau yn y sector hwn.

Ar ôl dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad nodwyd:

Roedd lleihau'r gofyniad cwmpas tir o 3ha i 1ha yn newid poblogaidd a awgrymwyd i ofynion cymhwysedd gan nad yw'r arwynebedd tir gofynnol presennol o 3ha yn cynnwys llawer o fusnesau garddwriaethol.

...

Yn gyffredinol, y persbectif cyffredinol oedd y dylid gwneud y gofynion cymhwyster a chontract yn hyblyg er mwyn galluogi cymaint o ffermwyr â phosibl i gymryd rhan.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori cyd-ddylunio gyda ffermwyr ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. O ran y meini prawf cymhwysedd, dyma a nodwyd yn yr adroddiad ar gyd-ddylunio:

Nid oedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn deall y penderfyniad y tu ôl i'r maen prawf 3ha, yn enwedig gan mai 5ha yw'r maen prawf ar gyfer y Cynllun Taliadau Sylfaenol, ac roeddent yn teimlo bod y terfyn hwn yn rhy isel gan y byddai'n caniatáu i 'ffermwyr hobi', fel yr oedden nhw'n eu gweld, i ymuno â'r cynllun. Roedd rhai cyfranogwyr yn meddwl y dylid cynyddu'r terfyn hwn i 5ha neu 10ha.

Fodd bynnag, awgrymodd rhai cyfranogwyr y dylai fod eithriad o ran y gofyniad hwn ar gyfer sectorau penodol, fel garddwriaeth. At hynny, gofynnodd rhai a allai ffermwyr ag ardal sy'n llai na 3ha ddod at ei gilydd er mwyn ymuno â'r cynllun, er mwyn bodloni'r gofyniad 3ha, gan eu bod yn pryderu y byddai rhai ffermwyr llyisiau yn cael eu hanghofio pe bai'r terfyn isaf oedd 3ha.

Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod ffermydd bach yn cael eu tangynrychioli yn y sampl a ddefnyddiwyd ar gyfer yr arolwg:

Yn sampl yr arolwg, roedd 14% o'r ymatebwyr wedi nodi bod ganddynt fferm o 20 hectar neu lai, a 63% bod ganddynt fferm o 50 hectar neu fwy (Ffigwr 2.4). Fodd bynnag, maint y fferm gyfartalog yng Nghymru yw

45 hectar, gyda 54% o ddaliadau o dan 20 hectar. Mae hyn yn awgrymu bod ffermydd llai (20 hectar neu lai) wedi eu tangynrychioli a bod ffermydd mwy (50 hectar neu fwy) wedi eu gorgynrychioli yn sampl yr arolwg.

3. Camau gweithredu gan Senedd Cymru

Bu Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn craffu ar [Ddeddf Amaethyddiaeth \(Cymru\) 2023](#). Fel y trafodwyd, nid yw'r meini prawf cymhwysedd yn cael eu pennu yn y Ddeddf, ond byddant yn cael eu nodi yn y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Cafodd y Pwyllgor [dystiolaeth gan Gynghair Gweithwyr y Tir Cymru \(GyT Cymru\)](#) yn ystod Cyfnod 1 o'r broses ddeddfwriaethol. Roedd GyT Cymru yn poeni am y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth yn y dyfodol, gan ddweud y byddai gofyniad tri hectar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy drafft yn eithrio llawer o ffermydd cynaliadwy rhagorol, yn enwedig ffermydd ffrwythau a llysiau. Dywedodd fod camddealltwriaeth ynglŷn â chostau a throsiant garddwriaeth a dywedodd ei bod yn ymddangos bod y meini prawf cymhwysra yn cymryd yn ganiataol bod ffermydd bach yn 'ffermydd hobi', yn hytrach na busnesau masnachol sy'n darparu cyflogaeth wledig. Yn ei [adroddiad Cyfnod 1](#), argymhellodd y Pwyllgor:

Gwahoddir y Gweinidog i ystyried y dystiolaeth gan randdeiliaid i'r Bil gael ei gryfhau ymhellach i hyrwyddo garddwriaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd i arallgyfeirio

Ymatebodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd:

Mae'r Bil yn golygu y gellir cael cefnogaeth i arddwriaeth a mathau eraill o arallgyfeirio wrth eu cynnwys yn y diffiniad o amaethyddiaeth sy'n golygu bod cefnogi garddwriaeth yn bosibl o dan y pŵer i roi cymorth.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd i'r afael â'r gofyniad cymhwysedd o ran yr isafswm maint ar gyfer fferm.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1378
Ein cyf/Our ref LG/00680/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

22 Tachwedd 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Hydref, ynghylch Deiseb P-06-1378 o'r enw 'Rydym am i gymorthdaliadau fferm gael eu hymestyn i arddwyr bach a marchnad.'

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd y sector hwn ac eisoes yn darparu cymorth i alluogi ei ddatblygu. Mae'r cynlluniau Dechrau a Datblygu Garddwriaeth, a lansiwyd yn 2022, wedi'u cynllunio i helpu tyfwyr gyda buddsoddi mewn offer a thechnoleg newydd. Galluogi busnesau garddwriaethol i ehangu cynhyrchiant yn gynaliadwy, arallgyfeirio i dyfu cnydau newydd, gwella effeithlonrwydd cynhyrchu a gwella ansawdd y cynnyrch. Nid oes isafswm o ran ardal i'w drin wrth ddyfarnu'r grantiau hyn, felly maent wedi bod o fudd i arddwyr ar raddfa fach a garddwyr marchnad.

Mae'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn y dyfodol yn cael ei gynllunio i fod yn berthnasol i'r mwyafrif o fusnesau ffermio ar draws sawl sector yng Nghymru. Mae adborth i ymgynghoriadau blaenorol yn cadarnhau cytundeb y diwydiannau gyda strwythur sylfaenol y cynllun sy'n cynnwys cyfres o Gamau Gweithredu Cyffredinol sy'n berthnasol i bawb yn gyfnewid am Daliad Sylfaenol, gydag Opsiynau Dewisol a Chydweithredol ar gael i'r rhai sy'n dymuno mynd ymhellach.

Mae'r cymhwyster arfaethedig ar gyfer yr SFS yn cynnwys o leiaf tair hectar cymwys, wedi'i leihau o bum hectar o dan gynllun y Taliad Sylfaenol i wneud y cynllun yn hygyrch i gynhyrchwyr ar raddfa lai fel garddwyr marchnad. Ar gyfer busnesau sy'n gallu bodloni'r meini prawf hyn, mae cynigion ar gyfer Gweithredoedd Dewisol yn cynnwys *cymorth i sefydlu busnesau garddwriaethol newydd neu fentrau garddwriaethol newydd o fewn busnesau fferm sefydledig*. Mae'n annhebygol y bydd y Weithred Ddewisol hon ar gael ar unwaith pan fydd yr SFS yn dechrau yn 2025, ond bydd yn cael ei integreiddio yn y cynllun yn ystod y cyfnod pontio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae adborth anecdotaidd gan randdeiliaid garddwriaethol yn awgrymu na fyddai rhai yn gallu cyflawni Gweithredoedd Cyffredinol SFS y byddai'n ofynnol i fusnesau eraill eu cyflawni gan na fyddai'n ymarferol cyflawni camau gweithredu ar gynefinoedd neu greu coetiroedd ar leiniau bach. Rydym wedi cynghori'r sector garddwriaethol i ymateb i ymgynghoriad SFS gydag awgrymiadau ar sut y gellid cefnogi eu sector o fewn model SFS, neu os oes potensial i gefnogi clystyrau o fusnesau garddwriaethol trwy haen Gydweithredol yr SFS.

Ni wneir unrhyw benderfyniadau dylunio terfynol ar y SFS nes i'r ymgynghoriad terfynol ddod i ben cyn bo hir.



Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

P-06-1379 Gwahardd gwerthu e-sigaréts untro

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Rhagfyr 2023
Petitions Committee | 11 December 2023

Cyfeirnod: SR23/7337-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1379

Teitl y ddeiseb: Gwahardd gwerthu e-sigaréts untro

Geiriad y ddeiseb: Mae e-sigaréts untro yn dod yn fwyfwy poblogaidd, yn enwedig ymhlith pobl ifanc, ac mae tueddiad cynyddol i gael gwared arnynt mewn modd amhriodol. Er bod modd ailgychu'r deunyddiau, fel arfer, ar y gorau, maent yn cael eu taflu i'r gwastraff cyffredinol, ac yn fwy aml na pheidio yn cael eu gadael fel sbwriel mewn manau cyhoeddus, gan achosi problemau ar gyfer yr amgylchedd lleol.



1. Y cefndir

Ym mis Gorffennaf 2023, galwodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol, sy'n cynrychioli cynghorau yng Nghymru a Lloegr, ar Lywodraeth y DU i wahardd gwerthu a gweithgynhyrchu e-sigaréts tafladwy/untro erbyn 2024. Rhoddodd y Gymdeithas ragor o fanylion am ei safbwynt polisi ym mis Hydref 2023.

Yn ôl arolwg gan YouGov ym mis Gorffennaf 2023 roedd 77% o bobl yng Nghymru yn dweud eu bod yn cytuno i raddau, neu'n cytuno'n gryf, y dylid gwahardd e-sigaréts untro.

1.1. Pryderon amgylcheddol

Yn ôl adroddiadau, mae bron 5 miliwn o e-sigaréts untro yn cael eu taflu o'r neilltu bob wythnos (8 yr eiliad) yn y DU yn 2023, bedair gwaith y nifer gyfatebol yn 2022. Pan gânt eu taflu o'r neilltu, bydd e-sigaréts untro'n dod yn gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff ac mae angen eu trin mewn ffordd benodol yn y llyfr gwastraff. Corff anllywodraethol annibynnol sy'n gweithio ar y defnydd o ddeunyddiau trydanol a'r gallu i'w hailgylchu yw Material Focus, a dywed:

Producers, importers, distributors and retailers of single-use vapes need to do a lot more than they are currently doing to meet their legal and financial responsibilities under UK waste electrical (WEEE) and portable battery regulations.

Tynnodd y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA) sylw at y ffaith ei bod yn anodd ailgylchu e-sigaréts tafladwy yn y DU, ac at risgiau diogelwch y batris lithiwm y tu mewn iddynt. Mae'r yswiriwr Zurich Municipal hefyd wedi tanlinellu'r risg hon, gan ddweud bod cynnydd o 62% yn nifer y tanau mewn lorïau bin a chynnydd o 108% yn nifer y tanau mewn tai sy'n cael eu hachosi gan e-sigaréts yn ystod y ddwy flynedd cyn i'r cwmni ryddhau ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2023. Dangosodd ymchwil Zurich Municipal hefyd fod tri e-sigarét untro'n cael eu taflu o'r neilltu mewn ffordd amhriodol yn y DU bob eiliad. Hefyd, meddent, nid yw tri o bob pedwar defnyddiwr yn ymwybodol o'r ffordd briodol o gael gwared arnynt ac nid yw cyfradd gyfatebol yn sylweddoli eu bod yn cynnwys batris lithiwm.

Mae'r RSCPA hefyd wedi galw am wahardd e-sigaréts tafladwy oherwydd eu bod yn peri risg sylweddol i anifeiliaid domestig a gwyllt. Mae'r risgiau hyn yn cynnwys y posibilrwydd iddynt achosi tân, y bydd anifeiliaid yn eu llyncu neu'n eu gwenwyno a bod perygl iddynt dagu arnynt.

1.2. Pryderon iechyd a'r effeithiau ar blant a phobl ifanc

Tanlinellodd **Iechyd Cyhoeddus Cymru** y risgiau i iechyd y rhai sy'n defnyddio e-sigaréts, yn enwedig plant a phobl ifanc. Er bod e-sigaréts yn cael eu hystyried yn llai niweidiol na sigaréts, ni ellir dweud nad does dim risg ynghlwm wrthynt ac nid yw'r effeithiau hirdymor yn hysbys. Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd fod bod yn gaeth i nicotin yn effeithio ar iechyd meddwl a lles. Dywedodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod tystiolaeth gynyddol yn dangos bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ddechrau ysmegu os ydynt yn defnyddio e-sigaréts.

Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru rybudd arbennig am e-sigaréts untro sy'n aml yn rhatach ac felly'n cael eu gwerthu'n eang i bobl ifanc. Mae hefyd wedi cyhoeddi canllawiau ar fepio i ddisgyblion oed uwchradd.

Mae **arolygon 2023** ASH Smokefree GB o oedolion a phobl ifanc yn dangos bod yr e-sigaréts y bydd plant yn eu dewis yn e-sigaréts untro fel arfer, a bod:

- y gyfran o'r plant a roddodd gynnig ar fepio unwaith neu ddwy wedi cynyddu 50% yn 2023, gan gyrraedd 11.6%;
- y gyfran o'r plant sy'n fepio'n rheolaidd wedi cynyddu 150% yn 2022, ac yna 20% yn 2023, gan gyrraedd 3.7%; a
- y gyfran o'r plant sy'n fepio'n achlysurol (llai nag unwaith yr wythnos) wedi dyblu bron yn 2022 ac wedi aros yn gyson yn 2023, sef 3.9%.

Galwodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant ar i Lywodraeth y DU wahardd e-sigaréts untro (sef term i ddisgrifio systemau electronig ar gyfer cyflenwi nicotin) a hynny oherwydd:

(...) disproportionate use among children and young people and their detrimental impact on the environment.

1.3. Y risgiau posibl cysylltiedig â'u gwahardd

Mae'r UK Vaping Industry Association (UKVIA) yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â fepio ymhlith plant, ac mae'n cynnig gosod dirwyon llymach ar fanwerthwyr sy'n gwerthu e-sigaréts i blant. Fodd bynnag, gwrthododd UKVIA gynnigion i gyflwyno rheoliadau llymach, gan ddweud y byddai'n cael effaith niweidiol ar y rhai sy'n ceisio rhoi'r gorau i ysmegu ac yn arwain at dwf yn y farchnad ddu na ellir ei rheoleiddio.

Gwrthododd y Gymdeithas Llywodraeth Leol y ddadl y byddai 'marchnad ddu' yn datblygu pe bai e-sigaréts yn cael eu gwahardd, gan ddweud nad oes tystiolaeth yn awgrymu hyn, a bod marchnad ddu yn bod eisoes.

1.4. Y camau a gymerwyd mewn gwledydd eraill

Mae nifer o wledydd Ewropeaidd wedi gwahardd e-sigaréts untro neu'n ystyried gwneud hynny. Yn Ffrainc, mae Bil at y diben hwn wedi'i fabwysiadu yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yn Iwerddon, mae ymgyngoriad ynghylch y mater wedi'i lansio. Mae'r Almaen wedi pasio deddf i wahardd e-sigaréts untro ac mae Hwngari wedi pasio deddf i wahardd e-sigaréts untro'r brand Elf Bar a chynhyrchion tybaco â blas. Mabwysiadodd Cyngor yr Undeb Ewropeaidd reoliad newydd ynghylch batris a batris gwastraff, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sicrhau bod modd tynnu pob batri cludadwy o'i le, a'i newid, erbyn 2027.

Mae rhai gwledydd, fel Denmarc, Estonia, a'r Ffindir, wedi gwahardd rhai blasau. Mae rhagor o wybodaeth am fesurau rheoleiddio e-sigaréts â blas fel ar mis Awst 2023 wedi'i chyhoeddi gan Physicians for a Smoke Free Canada (PSC).

Mae Awstralia yn bwriadu gwahardd e-sigaréts ac eithrio'r rhai sydd ar gael ar bresgripsiwn. Mae Seland Newydd wedi gostwng lefelau'r nicotin a ganiateir mewn e-sigaréts untro. Erbyn mis Awst 2023, roedd mwy na deg ar hugain o wledydd, gan gynnwys Brasil, Japan ac Uganda, wedi gwahardd e-sigaréts yn gyfan gwbl.

Dywedodd y Gymdeithas Llywodraeth Leol:

If the EU becomes a less attractive market for international producers it may lead to stocks of non-compliant vapes being dumped on less-regulated markets, e.g. the UK.

2. Camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru

Ym mis Hydref 2023, lansiwyd ymgyngoriad pedair gwlad ynghylch creu 'cenhedlaeth ddi-fwg'. Mae'r ymgyngoriad yn ceisio barn ynghylch cyfyngu ar gyflenwi a gwerthu cynhyrchion fepio untro. Roedd hyn yn dilyn cais am dystiolaeth am fepio ymhlith pobl ifanc a gynhaliwyd rhwng Ebrill a Mehefin 2023.

Tanlinellodd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd yr angen i'r DU gyfan fabwysiadu'r un mesurau, a **chyfarfu** â Gweinidogion ac uwch swyddogion y DU ym mis Medi 2023. Dywedodd:

We will be talking with the UK Government about accelerating both the consultation and, then, the outright ban on single-use e-cigarettes, actually, not just vapes—there are slightly different products on the market—because of both the public health and the environmentally wasteful, highly damaging and dangerous nature of this product.

Mae Llywodraeth Cymru **wedi bod yn gweithio hefyd** gyda gwledydd eraill y DU i gynnwys e-sigaréts yn y **cyfrifoldeb estynedig cynhyrchwyr** newydd.

Yn ogystal, **soniodd** y Gweinidog Newid Hinsawdd am y gwaith a wnaed gyda Safonau Masnach Cymru i hybu'r **gwaith ar gynhyrchion fepio anghyfreithlon**.

3. Camau a gymewyd gan Senedd Cymru

Ym mis Rhagfyr 2022, cynigiodd Rhys ab Owen AS **welliannau** i ychwanegu e-sigaréts untro at yr Atodlen i'r **Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)** fel yr oedd ar y pryd ("y Bil Plastig Untro"). Byddai'r gwelliannau wedi golygu gwahardd fêps ac e-sigaréts untro. Gwrthodwyd y gwelliannau. Dywedodd **y Gweinidog Newid Hinsawdd** fod angen mwy o dystiolaeth cyn cyflwyno gwaharddiad. Tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd e-sigaréts yn yr ymdrechion i helpu ysmygwyr i roi'r gorau i ysmegu.

Ym mis Medi 2023, cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith sesiynau tystiolaeth ynghylch y Bil Plastig Untro. **Tanlinellodd y Sefydliad Materion Cymreig** yr angen i sicrhau cysondeb drwy'r DU yn achos y plastigau untro newydd sy'n dod ar y farchnad, er enghraifft e-sigaréts untro. **Tynnodd Cadwch Gymru'n Daclus sylw** at y cynnydd mewn e-sigaréts untro mewn sbwriel stryd. **Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru** fod awdurdodau lleol yn tanlinellu'n gryf y problemau cysylltiedig ag e-sigaréts.

Yn y Cyfarfod Llawn ym mis Medi 2023, **gofynnodd** Vikki Howells AS, gwestiwn i Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ("y Trefnydd") ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i leihau nifer y plant dan oed sy'n fepio. **Atebodd** y Trefnydd drwy ddweud:

Rydym ni'n eglur iawn na ddylai plant ddefnyddio e-sigaréts, na phobl ifanc na phobl nad ydyn nhw'n ysmegu. Er y cydnabyddir, wrth gwrs, fod

fêpio yn fwy diogel nag ysmegu a gellir eu defnyddio gan rai pobl i helpu i roi'r gorau i ysmegu, ond rydym ni o'r farn fod y dystiolaeth ar eu heffeithiau iechyd hirdymor yn gyfyngedig ac yn parhau i ddod i'r golwg. Ac, yn rhan o'n strategaeth tybaco, rydym ni'n edrych yn ofalus iawn ar ein safbwynt polisi ni ar e-sigaréts yng Nghymru.

Ym Medi 2023, cyflwynodd Rhys ab Owen AS [gwestiwn](#) ynghylch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wahardd hysbysebu cynhyrchion nicotin â blas a lliwiau sy'n atyniadol i blant. Atebodd Lynne Neagle AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Lles ("y Dirprwy Weinidog Iechyd") ym mis Hydref 2023 ei bod yn gweithio gyda llywodraethau eraill y DU gan ychwanegu:

I await the outcome of the UK Government's call to evidence on youth vaping and have written to the Minister for Primary Care and Public Health in the UK Government to make clear my support for the introduction of much stronger evidence-based restrictions on the vaping industry, particularly in relation to their marketing and placement in shops.

Yn ystod Cwestiynau i'r Prif Weinidog ym mis Hydref 2023, [atebodd](#) Mark Drakeford AS, y Prif Weinidog, gwestiwn gan Ken Skates AS ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i amddiffyn pobl ifanc rhag effaith fepio:

Mae'r cynigion a wnaed gan Brif Weinidog y DU yn rhai y byddwn ni'n eu cefnogi, a byddwn yn alinio ein hunain â'r ymgynghoriad yr ydym ni'n disgwyl i Lywodraeth y DU ei ddatblygu (...).

[Gofynnodd](#) Darren Millar AS hefyd am y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i helpu i roi e-sigaréts i ysmygwyr fel rhan o wasanaethau'r GIG i'w helpu i roi'r gorau i ysmegu. Mewn ymateb, [tanlinellodd y Prif Weinidog](#) fod manteision fepio yn ddadleuol a bod safbwyntiau meddygol yn amrywio.

Yn y Cyfarfod Llawn ym mis Hydref 2023, [cynhaliwyd](#) dadl fer ar effaith fepio ledled Cymru ac fe'i cyflwynwyd gan John Griffiths AS, gyda chyfraniadau gan Jayne Bryant AS a Joel James AS, y Dirprwy Weinidog Iechyd. [Atebodd y Dirprwy Weinidog Iechyd](#) drwy bwysleisio'r gwaith a wnaed gyda gwledydd eraill y DU i ddatrys y problemau'n ymwneud ag e-sigaréts a'r gwaith gydag awdurdodau lleol ym maes gorfodi ac atafaelu cynhyrchion anghyfreithlon. Tynnodd sylw hefyd at y gwaith a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu canllawiau seiliedig ar dystiolaeth i ysgolion a'r camau sy'n cael eu cymryd i helpu'r rhai sy'n gaeth i nicotin.

Yn y Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2023, trafododd y Senedd gynneg deddfwriaethol gan Jenny Rathbone AS i gyflwyno Bil i atal gwerthu e-sigaréts untro. Nodwyd y cynnig:

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1379
Ein cyf/Our ref JJ/02927/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

21 Tachwedd 2023

Annwyl Jack Sargeant,

Diolch am eich llythyr ar 26 Medi ynghylch Deiseb P-06-1379 mewn perthynas â'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol yng Nghymru.

Rwy'n rhannu'r pryderon a godwyd yn y ddeiseb hon ac yn cytuno bod angen gweithredu ar feipio untro i amddiffyn iechyd y cyhoedd, atal defnydd gwastraffus o adnoddau ac atal y cynhyrchion hyn rhag cael eu taflu yn ein hamgylchedd. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori â gwledydd eraill y DU ar gynigion i greu cenhedlaeth ddi-fwg drwy godi oedran gwerthu tybaco. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ceisio barn ar gynigion i gyfyngu ar gyflenwi a gwerthu cynhyrchion feipio tafladwy. Mae disgwyl i'r ymgynghoriad ddod i ben ar 6 Rhagfyr ac mae modd cael mynediad ato drwy wefan Llywodraeth y DU.

[Creating a smokefree generation and tackling youth vaping: your views - GOV.UK](https://www.gov.uk)
(www.gov.uk)

Credaf fod dull cydweithredol ledled y DU yn hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â chynhyrchion o'r fath ac yn ddiweddar cwrddais â Gweinidogion ac uwch swyddogion o bob rhan o'r DU ym mis Medi i drafod y ffordd orau o gyflawni hyn. Cytunwyd y byddem yn gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effeithiau feipio untro, hyd at a chan gynnwys gwaharddiad. Mae gweithgor ledled y DU bellach wedi'i sefydlu i helpu i gasglu tystiolaeth a datblygu ein cynigion.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn ymgynghoriad pedair gwlad ar Ddiwygio Cyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig. Mae hyn yn cydnabod effaith amgylcheddol feps ac yn cynnig categori newydd o offer ar gyfer feps er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr yn ariannu'r gost o'u casglu a'u trin yn llawn. Rwy'n cefnogi'r dull hwn yn llwyr a hoffwn weld y rheolaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchydd newydd yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 104
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn glir bod yn rhaid i'r dirwedd reoleiddiol mewn perthynas â feps newid a gallaf eich sicrhau y bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Yn gywir,



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

P-06-1380 Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

Y Pwyllgor Deisebau | 11 Rhagfyr 2023
Petitions Committee | 11 December 2023

Cyfeirnod: SR23/7337-1

Rhif y ddeiseb: P-06-1380

Teitl y ddeiseb: Bathodyn glas gydol oes i unigolion sydd â diagnosis gydol oes

Geiriad y ddeiseb: Nid yw pob anabledd yr un fath, mae rhai yn para gydol oes, sy'n golygu nad ydynt yn newid dros amser.

Yn anffodus, mae'r canllawiau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion sydd â diagnosis gydol oes, sy'n cynnwys anableddau dysgu neu anghenion dwys a chymhleth, ailymgeisio am fathodyn glas bob tair blynedd. Gall y broses hon fod yn rhwystredig iawn, mae'n cymryd llawer o amser i unigolion a'u gofalwyr ei chwblhau ac mae'n canolbwyntio ar agweddau negyddol ar allu unigolyn.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio anabledd fel nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu unigolyn i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'n nodi y caniateir i bobl ag anableddau gael eu trin yn fwy ffafriol ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, i sicrhau cyfle cyfartal.

Credwn y dylid diweddarau'r broses i roi mwy o gymorth i'r rhai ag anableddau drwy wneud bywyd yn haws i'r rhai sydd â chyflyrau gydol oes.



Rydym, gan hynny, yn cynnig newid, ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i newid y broses bresennol o wneud cais am fathodyn glas, i roi'r hyn sy'n iawn i bobl anabl a'u cynorthwyo.

Byddai'r newid hwn yn caniatáu i bobl gael bathodyn glas sy'n para gydol oes os oes ganddynt gyflwr meddygol gydol oes nad oes disgwyl iddo wella, ac os yw eu nodiadau iechyd cysylltiedig yn cadarnhau hynny.

1. Y cefndir

Cyflwynwyd y cynllun Bathodyn Glas (Parcio Personau Anabl) ym 1971 o dan adran 21 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970. Yn 2000, cafodd y cynllun Bathodynnau Glas ar gyfer pobl anabl ei gyflwyno yng Nghymru drwy Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000.

Mae'r cynllun Bathodyn Glas yn darparu trefniadau cenedlaethol ar gyfer cynnig consesiynau parcio i bobl sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd, ac mae'n gweithredu ledled y DU. Mae Bathodynnau Glas ar gael am ddim yng Nghymru. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y cynllun, ac awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am weinyddu a gorfodi'r cynllun o ddydd i ddydd.

Yn ôl canllawiau'r cynllun Bathodyn Glas, gall unigolyn yng Nghymru fod yn gymwys i gael Bathodyn Glas os yw'n perthyn i un o'r categorïau a ganlyn:

- **Cymwys yn awtomatig** – gall unigolyn fod yn gymwys am fathodyn heb fod angen asesiad os yw'n derbyn budd-dal anabledd a restrir neu os oes ganddo nam ar ei olwg.
